

Maer 2013-2014

Y Cynghorydd Graham Davies

Urddwyd y Cynghorydd Graham Davies yn Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar Fai 15fed 2013. Mae wedi cynrychioli Ward y Dref ers mis Mai 2012. Mae Graham yn byw ym Mharc Penydarren gyda'i wraig Mari. Mae ganddynt dri o blant Mark, Nigel a Jane, tri o wyrion ac un orwyres.

Fel Prif Ddinesydd Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mae dyletswyddau'r Cynghorydd Davies yn cynnwys cadeirio cyfarfodydd llawn y Cyngor a chynrychioli'r Cyngor mewn seremonïau yn y Fwrdeistref Sirol, yn rhanbarthol, genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae yn croesawu ymwelwyr i'r Fwrdeistref Sirol ac yn cefnogi digwyddiadau wedi eu trefnu gan bobl leol a mudiadau.

Yn ystod ei flwyddyn fel Maer, bydd yn brysur yn codi arian tuag at ei ddewis elusennau, sef [Macmillan Cancer Support](#) & [Cancer Aid Merthyr Tydfil](#).

Bydd yr holl arian a gesglir yn mynd at waith gwych yr elusennau yn y Fwrdeistref Sirol. Mae Macmillan Cancer Support yn gwneud gwaith gwych gyda'u nyrsys a'r Uned newydd yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a Cancer Aid Merthyr Tudful gyda thimau o wirfoddolwyr, gyrwyr, cynghorwyr, therapyddion a chownselwyr yn cyfrannu yn fawr i gleifion a'u teuluoedd o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Mae Graham yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Dreftadaeth a hefyd Capel Hope ble mae yn Flaenor ac mae yn gwirfoddoli gyda Cancer Aid; mae hefyd yn weithredol gyda Grŵp Amgueddfa Cyfarthfa. Merthyr Tudful yw cartref Graham ers 45 o flynyddoedd ac mae ei dyfodol, ei hanes a'i phobl yn agos iawn at ei galon.